# y DINESYDD

EBRILL 1995 — "LLAIS Y GYMUNED" — RHIF 207

*PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH*


# Addysg uwchradd: Dyfodol cymysglyd

**BARN y DINESYDD**

RYDYN ni i gyd yn ymhyfrydu yn y ffaith fod yna dwf cyson a sylweddol yn nifer y plant yn Ne Morgannwg sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg a bod bellach o fewn y sir bron ddwsin o ysgolion cynradd Cymraeg.

Ni ddigwyddodd hyn heb frwydro dygn gan rieni argyhoeddedig a deimlai ar adegau nad oedd yr Awdurdod Addysg yn rhoi arweiniad cadarn a goleuedig ac na cheid arweiniad felly hyd yn oedd pan oedd Cymry ymddangosiadol bybyr mewn safleoedd o awdurdod.

Oherwydd y twf cyson hwn a llwyddiant nodedig Glantaf mewn amrywiol feysydd roedd yn amlwg y byddai'n rhaid wrth ysgol uwchradd Gymraeg arall yn hwyr neu'n hwyrach. Teimlid eto mai araf oedd yr Awdurdod yn gweithredu yn hyn o beth er gwaethaf ffigurau arwyddocaol a oedd yn hysbys i bawb, gellid meddwl. (Rhaid nodi er hynny nad oedd y ffigurau a dderbynnid yn gwbl gywir bob tro.) Annerbyniol iawn oedd ambell syniad go simsan a gynigid gan yr Awdurdod. O ganlyniad hawdd oedd eu cyhuddo o fod o leiaf yn llugoer ynglŷn ag addysg Gymraeg a gwnaed hynny weithiau heb ryw lawer o ymdrech i ddeall problemau real oedd yn bodoli.



*Ysgol Isaf Glan-Taf*

*Llun: Robin Griffith*

Testun llawenydd felly, i rieni Caerdydd o leiaf, oedd clywed am y bwriad i wneud yr ysgol uwchradd bresennol yn ddwy ysgol ar wahân erbyn Medi 1998 (amcangyfrifir y bydd bron 1800 o ddisgyblion erbyn hynny), a bod swm sylweddol o arian i'w wario ar gyfer addasu'r ddau adeilad presennol. Digon hawdd, yng nghanol y gorfoleddu, yw anghofio dros dro y bydd y datblygiad yn dwyn problemau astrus i'w ganlyn, a'r mwyaf o'r rhai hyn o bosibl fydd anhawster cael digon o athrawon o'r iawn ryw. Gwyddom am brinder athrawon felly a siomedig hyd yn hyn fu'r ymdrech swyddogol i ddiwallu'r anghenion sy'n dilyn llwyddi-

☛ *parhad ar dud 3*

# Hiraeth yn procio'r cof

**GEORGE OWEN YN COFIO MYFANWY TALOG**

CHOFIA i mo'r eisteddfod ond fe gofiaf yr achlysur. Criw o fyfyrwyr digon afreolus yn perfformio un o anterliwtiau Twm o'r Nant ar drol yng nghanol y maes.

Norah Isaac oedd yn gyfrifol. Crybiniodd y colegau am actorion cymwys - ambell un yn gyfarwydd i mi - ond yn eu plith wyneb newydd, merch dal, hynod osgeiddig, gyda gwallt cochddu i lawr at ei hysgwyddau, a'i hegni a'i hasbri'n cyfareddu cynulleidfa.

Dyma'r tro cyntaf i mi weld Myfanwy Talog Williams, myfyrwraig ifanc o Goleg y Barri. Rwy'n cofio dotio ar ei phersonoliaeth hawddgar a'i hyder ar y llwyfan. Gwyddwn ar f'union fy mod ym mhresenoldeb talent anarferol iawn ac y gwelid mwy

☛ *parhad ar dud 2*

## Y TU MEWN I'CH DINESYDD...


| | |
|---|---|
| Trem yn ôl i'r pedwardegau | 3 |
| Pytiau | 4-5 |
| Cydymdeimlo | 5 |
| Ysgolion | 6 |
| Dysgu Cymraeg | 7 |
| Cymry ar waith | 8 |
| Nodwedd: Golwg Gogleddol | 9 |
| Chwaraeon | 11 |
| Croesair | 12 |

# Hiraeth yn procio'r cof



Llun trwy garedigrwydd Aled Evans

*Myfanwy Talog: Actores wrth reddf*

☛ *parhad o dud 1*

o'r ferch ifanc maes o law.

Welais i mohoni wedyn tan ddiwedd y chwedegau, pan oedd BBC Cymru'n datblygu'n gyflym a'r adran Adloniant Ysgafn, dan gyfarwyddyd ysbrydoledig Merêd yn mynd o nerth i nerth. Cymru gyfan yn dotio ar allu rhai fel Derek Boote, Ryan a Bryn Williams, ac wrth gwrs Myfanwy Talog. Roedd hi'n ddynwaredwraig ddihafal, gyda'r gallu i gostrelu nodweddion cymeriad gydag economi deifiol - osgo pen, ystum llaw, ynganiad ambell air, ac roedd hi'n dod â'r gwrthrych yn fyw. Nid rhyfedd efallai iddi weithio cymaint ym myd adloniant ysgafn a chomedi sefyllfa. Yn Gymraeg ac yn Saesneg, i BBC Cymru ac i'r rhwydwaith mewn rhaglenni megis *Bread a Butterflies*, creodd oriel gyfoethog o bortreadau ac yn coroni'r cyfan yr anfarwol "Phyllis Doris".

Ond yr oedd iddi gryfder arall hefyd, cryfder actores reddfol, sensitif. Gellir olrhain hyn yn ôl i ddyddiau'r llun a welwch yma - o'r fyfyrwraig ifanc o Goleg y Barri yn portreadu Else von Dietlof yn *Brad*. Mae'n debyg mai yno y dechreuodd ymddiddoroi yn y theatr o ddifrif. Fe ges i'r fraint, rai blynyddoedd wedyn, o gydweithio â hi ar nifer o ddramâu teledu. Wrth edrych yn ôl, mae'n hawdd dadansoddi'r cryfder yma. Roedd ganddi'r gallu i greu cymeriad oedd yn hollol ddidwyll, gredadwy. Ni pherthynai i'w pherfformiad hi y ffug a'r ystrydebol. Ni fodlonai ar lai na'r gwir a'r dilys. Un o'r pleserau o weithio gyda hi oedd ei gweld yn dadansoddi, yn darnio, ac yna'n meddiannu cymeriad a'i ailadeiladu yn ei mowld arbennig hi ei hun.

Fe gofiaf yn arbennig ei gwaith i mi ar Saer Doliau a'r portread iasoer a greodd o'r ferch arallfydol, enigmatig yn y ddrama.

"Tryfanwy" oedd hi i bawb yn y stiwdio, odid y mwyaf poblogaidd ymysg actorion. Roedd ei ffraethineb yn ddiarhebol - ple bynnag y clywid storm o chwerthin afreolus fe wyddech fod Myfanwy yno. Yn dwymgalon, parod ei chymwynas, bu'n gymorth parod i ddegau o rai ifanc yn dechrau ar eu gyrfaoedd. Yn feistres ar dechneg ac yn ddigyfaddawd yn ei gwaith ei hun, bu'n esiampl ac yn destun edmygedd iddynt hefyd.

Tra'n cydweithio â hi ar *Dinas* y des i sylweddoli fod yr asbri oedd mor nodweddiadol ohoni'n pallu. Bu'n wael am gyfnod, cafodd lawdriniaeth ac, ymhen y rhawg, daeth yn ôl. Mynnodd, er gwaethaf ymdrechion pawb i'w choleddu, fynd ymlaen â'i gwaith. Nid arbedai ei hun, ni dderbyniai gyfaddawd o unrhyw fath. Mynnodd, gyda'r dewrder a'r penderfyniad oedd yn rhan o'i chymeriad, frwydro ymlaen. Bu gwaeledd arall, atgyfnerthiad arall. Aeth ymlaen i roi sawl perfformiad grymus ar radio ac ar ffilm. Cafodd ei henwebu fel prif actores Gŵyl Dewi BAFTA. Ymladdodd i'r diwedd. Nid un i ildio mohoni.

Collwyd Derek, Ryan a Bryn. Ac yn awr Myfanwy. Hawdd credu fod gorfoledd ymysg yr anfarwolion. Gymaint tlotach yw'n byd ni. Diolchwn amdanynt, diolchwn am y fraint o'u hadnabod, am bleser y gwmnïaeth, er byrred ydoedd. **D**


# y DINESYDD

Ebrill, 1995. Rhif 207.

Cyhoeddir y Dinesydd gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau a'r Swyddfa Gymreig. Fe'i dyfuniwyd gan Newsline, Caerdydd, ac fe'i argraffwyd gan CIT Printing Services, Hwlffordd.

## Y TÎM GOLYGYDDOL

Bydd angen y deunydd ar gyfer Dinesydd Mai erbyn 10 Ebrill.

Anfonwch unrhyw ddeunydd ar chwaraeonat:

**Mr J. Thomas Davies**, 41 Highfields, Caerdydd (564540)

Anfonwch unrhyw ddeunydd addysgol at:

**Mr B D Harries**, 6 Lakeside Drive, Caerdydd (756562)

Anfonwch unrhyw ddeunydd cyffredinol at naill ai:

**Mr Wyn James**, 16 Ffordd Kelston, Caerdydd (628754,) neu: **Mr W J Jones**, 46 Heol Crystalwood, Caerdydd (756282)

Anfonwch unrhyw newyddion at:

**Mr Gwilym Roberts**, 6 Heol Wen, Caerdydd (693254): Newyddion

Mae'r **Parchedig Gwilym Davies**, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd (626811) yn derbyn newyddion yr addoldai.

## HYSBYSEBION

Mae'r Dinesydd yn ffordd ddelfrydol i gyrraedd sylw pobl Caerdydd a'r cylch. Os am hysbysebu, cysylltwch â Mr Tim Pearce, Newsline, 24 James Street, Caerdydd CF1 6EX. Ffôn 452383 Ffacs 487220.



# RAY LEWIS & PARTNERS

*Chwilio am gyfreithiwr Cymraeg?*

*Am gyngor priodol manwl gywir i unigolion a chwmnïau, cysylltwch â* ***Matthew Ginn***

***01685 722384 (dydd) 01222 811588 (nos)***


# Llywydd yr eglwysi

NID yn aml y bydd un o blith yr eglwysi Cymraeg yn cael ei wahodd i wasanaethu fel Llywydd yr Eglwysi Rhyddion yng Nghaerdydd ond am y ddwy flynedd nesaf, gweinidog y Tabernacl, y Parchedig Denzil John, fydd yn cyflawni'r dyletswyddau hyn. Cynhaliwyd oedfa arbennig i'w neilltuo i'r swydd hon ar noson olaf Ionawr, gyda'r Parchedigion Tim Hillier a Roy Jenkins yn pregethu. Ymhlith y gweddill a gymerodd ran oedd y Parchedigion Ieuan Davies, Peter Scotland, Leslie Jones a Donald Knighton. Cafwyd eitem gerddorol hyfryd gan Mair Rice, merch Mary a Mansel Evans gynt. Derbyniwyd casgliad o dros £175 at gefnogi Hostel Byddin yr Iachawdwriaeth ar ôl y difrod tân diweddar.

# Trem yn ôl i'r pedwardegau




YN EI erthygl deyrnged i Rachel Thomas a ymddangosodd yn rhifyn Mawrth cyfeiriodd Brian Evans at basiant a gynhaliwyd yng Nghapel Minny Street yn 1945. Yn dilyn yr erthygl daeth llun diddorol trwy law Elunis Gibbs i ddwylo'r Dinesydd. Ynddo, ceir lluniau nifer o bobl enwog. Yn garedig iawn, ysgrifennodd un o 'genhadon' y perfformiad, Y Parchedig Huw Ethall, atom i roi ychydig o hanes y llun.

Na, nid llun o ddrama Nadolig yw'r llun uchod ond achlysur nas ceir bob blwyddyn. Yn 1945, hanner can mlynedd yn union yn ôl, perfformiwyd pasiant cenhadol Minny Street ar achlysur dathlu Trydydd Jiwbilî sefydlu Cymdeithas genhadol Llundain, "Yr Antur Fawr".

Yr hyn sy'n arbennig am y pasiant oedd iddo gael ei gynhyrchu gan Rachel Thomas. Fe'i cofir fel actores dalentog iawn ond faint a wyddai amdani fel cynhyrchydd? Yn y llun gwelir Mair Jones (Taylor yn awr), Hettie Edwards, Gwyneth Evans (Y Genhades), Mrs. Prosser, Megan Roberts, Marian Rees (Jones), Hilda Price (Ethall). Ac ymhlith y plant Elunis Gibbs (Goodfellow), Carys ei chwaer, Helen Prosser, Delyth Thomas (merch Rachel Thomas), Brian Evans, y bechgyn ifainc Alwyn Prosser, Edward Millward, Bobi Jones, Gwilym ap Roberts a'r gŵr ar y chwith W J Evans, tad Mati Prichard (gwraig Caradog) a Walter Williams.

A allwch chi adnabod y gweddill? Os gwyddoch chi enwau rhai ohonyn nhw, anfonwch wybod at un o'r panel golygyddol mor fuan ag y bo modd.

**D**

# Addysg uwchradd: Dyfodol cymysglyd

*☛ parhad o dud 1*

**BARN y DINESYDD**


ant digamsyniol yr ysgolion uwchradd Cymraeg ledled Cymru. Ond am y tro, 'digon i'r diwrnod ei dda ei hun'.

Yn ddigon naturiol derbyniad cymysg a gafodd y cyhoeddiad ymhlith rhieni'r Fro. Er eu bod hwythau hefyd yn ymhyfrydu yn y ffaith y bydd dwy ysgol uwchradd Gymraeg yn y sir yn y dyfodol agos teimlant yn gryf, a hawdd yw cydymdeimlo â hwy, y dylid sefydlu ysgol uwchradd Gymraeg yn y Fro a bod, fel y nododd un rhiant, y ddinas yn elwa ar draul y Fro. Honnant, yn ddigon teg, fod llawer o rieni yn gwrthod anfon eu plant i ysgol Gymraeg oherwydd problemau teithio a bod, o ganlyniad, lu o blant yn cael eu hamddifadu o'r math o addysg sy'n llwyddiant digamsyniol. O degwch i'r Awdurdod, dilyd nodi nad oes adeilad addas ar gael yn y Fro ar hyn o bryd, bod y gost o adeiladu ysgol newydd sbon yn dipyn mwy, mae'n debyg, na'r arian sydd ar gael weithian a bod llai na 500 o'r disgyblion presennol yn dod o'r Fro. Mae'n galonogol, er gwaethaf hyn i gyd, bod yr Awdurdod presennol yn bwriadu parhau i roi ystyriaeth fanwl a chydymdeimladol i ddymuniadau rhieni'r Fro.

Yn sicr, rhaid cefnogi, ym mhob dull a modd, yr hyn sydd yn yr arfaeth yng Nghaerdydd, gan obeithio na wnaiff rhieni'r Fro laesu dwylo ond parhau â'u hymdrech, mewn gair a gweithred i weld gwireddu eu gobeithion digon rhesymol. Dyfal donc a dyrr y garreg, hyd yn oed garreg sydd ers cryn amser yn ymddangos yn go galed.

**D**

# Dolen Cymru




MAE Dolen Cymru, sef y Mudiad sy'n efeillio Cymru a Lesotho, De Affrica, yn dathlu ei ddeng mlwyddiant eleni. Cadeirydd presennol Dolen Cymru yw y Cynghorydd Elaine Morgan, Tre-lai. Mae ei merch, Eluned, yn Aelod Seneddol Ewropeaidd.

# Cymanfa Ganu

NOS Sul 12 Mawrth cynhaliwyd Cymanfa Ganu flynyddol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Daeth tyrfa luosog ynghyd a chafwyd canu ardderchog dan arweiniaid Alun Guy gyda chymorth Cerddorfa Siambr nifer o ddisgyblion Glan-taf. John Howell oedd wrth yr organ ac roedd y rhannau arweiniol o dan ofal Meinwen Guy.

# Diolch am gyfraniad

MAE Gwilym Roberts, Rhiwbeina, am ddiolch i bawb a gyfrannodd at gronfa i gynorthwyo nifer o bobl y Wladfa ym Mhatagonia i ddod i Gymru yn yr haf ar gyrsiau Cymraeg. Dathlodd ben ei flwydd yn drigain oed trwy gynnal loncian nawdd tuag at y gronfa. Rhedodd am awr a naw munud ar hugain o Riwbeina, draw i'r Eglwys Newydd, Ystum Taf, Llandaf, Radyr, Tongwynlais, Pantmawr ac yn ôl adre. Erbyn hyn mae dros £1,800 wedi dod i law. Braf fyddai cyrraedd y ddwy fil.
Croeso i unrhyw un gyfrannu!

# Cyflwyniad

CYFLWYNODD Mrs Margaret Ryan, Aberdâr, un o gadeiriau eisteddfod ei thad, y diweddar Barchedig Glyndwr Richards, Rhiwbeina, i Ysgol y Wern, Llanisien.

**Huw Roberts** BSc, ACMA

*Cyfrifydd*

**Cyngor ariannol annibynnol ar gyfer treth, pensiynau a buddsoddiadau**

"Y Rhodfa", 5 Pine Court, Forest Hills,
Talbot Green, Morgannwg Ganol CF7 8LA
☎ 01443 224182

RHEOLWYD GAN Y PERSONAL INVESTMENT AUTHORITY

# Trychineb Rwanda

TRYCHINEB Rwanda oedd testun darlith Judith Humphreys wrth iddi annerch gwasanaeth hwyrol yng Nghapel Salem, Treganna, ar 19 Chwefror. Er bod ymdrechion y Cenhedloedd Unedig gyda chefnogaeth elusennau dyngarol wedi lleihau'r dioddef, mawr yw angen y brodorion am gymorth o hyd. Clywyd sôn am y nifer cynyddol o blant amddifad, am ôl y treisio a ddigwyddodd yn ystod y gyflafan, ac am anghenion pentrefi a ddifrodwyd gan y brwydro.

Mor ychydig yw'r £1,200 a gyflwynwyd i Cymorth Cristnogol traw law Judith Humphreys y noson honno o'i gymharu â'r angen. Dyma'r hyn a gasglwyd ar noson gyngerdd 'Sêr yn Salem' ar nos Sadwrn ychydig cyn y Nadolig. Mwynhaodd y gynulleidfa gyfraniadau Côr Ysgol Coed-y-gof a Chôr Meibion Caerdydd ac yn arbennig eitemau gan y baswr Anthony Stuart Lloyd, deuawdau gan John ac Eleri Peleg Williams, caneuon gan Caryl Parry Jones a Myfyr Isaac ar y gitâr, a chyflwyniad llafar gan Sharon Morgan, oll dan arweiniad Arfon Haines Davies. Mawr yw dyled Salem i bawb a roddodd o'u hamser a'u doniau i achos mor deilwng â Chymorth Cristnogol a hefyd i'r nawdd hael a dderbyniwyd gan Swyddfa'r Post.

Nodwch mai ar y Sadwrn cyntaf yn Rhagfyr 1995 y cynhelir 'Sêr yn Salem' nesaf, yr unfed gyngerdd ar ddeg!

**Richard Hall Williams**

# Yfed coffi

BORE Sadwrn, 4 Mawrth cynhaliwyd Bore Coffi Gŵyl Dewi er budd Cylch Meithrin Rhiwbeina yn festri Bethel Maes-y-deri a daeth tyrfa dda ynghyd i yfed coffi a chael clonc. Gwnaed elw sylweddol.

# Cawl a chân

CYNHALIODD Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina Noson Cawl a Chân i ddathlu Gŵyl Dewi ar nos Lun y chweched o Fawrth a daeth llond ystafell o Gymry'r ardal ynghyd i fwynhau yng nghwmni Selwyn a Margaret Jones a'u merch Judith. Yn ystod y noson darllenwyd cerdd i Nant Gwrtheyrn gan Falmai Griffiths, Llywydd y Gymdeithas, cerdd a gyfansoddwyd gan Niel Hennessy, disgybl Chweched Dosbarth yng Ngholeg Dewi Sant, Pen-y-lan. Roedd yn bresennol yn y cyfarfod a chafodd gymeradwyaeth frwd gan y gynulleidfa. Ethni Jones, Llanbedr-y-Fro yw ei athrawes Gymraeg.

# Llongyfarchion

LLONGYFARCHION i Colin Jackson ar ennill y ras 110 metr dros y clwydi mewn cyfarfod ym Melbourne, Awstralia yn yr amser 13.37 eiliad. Daeth Paul Gray, Llanedyrn yn drydydd yn yr un ras mewn 14.01 eiliad.

# Offeren Gymraeg

FLYNYDDOEDD yn ôl fe gâi Offeren Gymraeg ei chynnal yn y Bont-faen bob pnawn Sul ac yna symudodd i Ben-y-bont. Yr un oedd yn gwasanaethu yn yr offeren oedd y Canon Regan sydd bellach yn Esgob Menevia. Ond ers rhai wythnosau bellach cynhelir yr Offeren Gymraeg yn Eglwys Gatholig y Galon Sanctaidd yn Broad Street, Lecwydd, Caerdydd bob bore Sul am 11.00 a.m. a gwasanaethir gan y Tad Ieuan Wyn Jones sy hefyd yn Gaplan Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant ym Mhen-lan.

# Elw i MS

CYNHALIWYD pumed Cymanfa Ganu Arglwydd Faer Caerdydd ar nos Sul 26 Chwefror yn Neuadd Dewi Sant. Arweinydd y noson oedd Glynne Jones gyda Chôr Meibion Pendyrys, a Huw Tregelles Williams wrth yr organ. Cafwyd unawdau gan y soprano Joanne Thomas ac eitemau gan Ysgol Gyfun Glantaf dan arweiniaid Alun Guy. Aeth elw'r gymanfa at Gangen Caerdydd o'r elusen Multiple Sclerosis.

# Priodasau

PRIODWYD Dewi Alban Roberts, mab Mrs Glenys Roberts Heol Cefn-coed a'r diweddar Hywel D. Roberts ag Elin Prys Davies, merch ifanca'r Arglwydd a'r Fonesig Gwilym Prys Davies, yng Nghapel y Crwys ar yr unfed ar ddeg o Chwefror. Mae Dewi yn gweithio i'r BBC ac mae Elin yn athrawes yn Ysgol Bro Eirwg.

Ar 7 Ionawr, ym Methel, Rhiwbeina, priodwyd Eleri Dyfri Jones a Stephen Jarrett o'r Groes-faen gan y Parchedig Pamela Cram. Euros Rhys Evans oedd yr organydd a'r unawdydd oedd Anthony Stuart Lloyd.

# Gweithiwr lleyg

LLONGYFARCHION i Mrs Tasmin Llwyd Graves ar ei phenodiad yn weithiwr lleyg i gynorthwyo gweinidog Bethel Rhiwbeina, y Parchedig Pamela Cram, sydd â saith eglwys dan ei gofal. Mae Tasmin eisoes wedi sefydlu dosbarth Astudiaethau Beiblaidd sy'n cyfarfod unwaith y mis, ac mae hi'n weithgar gyda phobl ifanc yr eglwys.




Penderfynwyd addasu un o ystafelloedd y capel yn ganolfan i'r ifanc.

*NODER: Bydd erthygl nesaf Allan Greedy yn ymddangos yn rhifyn Mai'r Dinesydd.*

# CYDYMDEIMLO

► AR ddiwedd Chwefror bu farw Eira Mary Morgan, Earls Court, Pen-y-lan, sef gweddw David Watkin Morgan cyn brifathro a chyn lywydd Cymrodorion Caerdydd. Gedy un mab, Ainsley, sy'n byw yn Rhiwbeina. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu colled.

► BU farw Betty Stephens-Jones yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar y chweched o Fawrth. Cydymdeimlir â'i gŵr, John a'r mab Roger yn eu colled. Bu'r teulu yn byw ym Mhen-y-lan ac roedd Roger yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Howardian ac yn aelod o Aelwyd Caerdydd. Ers blynyddoedd bellach mae e'n athro Saesneg yn Ysgol Botwnog, Llŷn ac yn awdur nifer o lyfrau gan gynnwys *O Wlad Fach* a'r dilyniant, *O Wlad Fawr*.

► CYDYMDEIMLWN â theulu Mr Hugh Williams a fu farw o'r clefyd 'motor neurone' ddechrau'r flwyddyn. Roedd yn aelod yng Nghapel y Crwys.

Dechreuodd y clefyd blin ymaflyd ynddo pan oedd yn byw gyda'i rieni, John Meirion a Hilda Williams yn Yr Eglwys Newydd. Roedd y teulu wedi dod o Fachynlleth i Gaerdydd.

Roedd Huw yn fachgen talgryf, pryd tywyll ac yn chwe throedfedd o daldra. Byrlymai o hiwmor a byddai ei ddywediadau yn nhafodiaith Maldwyn, lle cafodd ei addysg gynnar, yn eli i glust a chalon. Bu'r hiwmor yma'n help iddo ddioddef ei afiechyd.

Wythnosau cyn ei farw lluniodd Hugh gerdyn Nadolig gan ddarlunio twnnel gyda llygedyn o oleuni yn ei ben draw. Tu fewn i'r cerdyn, yr ochr arall i'r twnnel, roedd tref Bethlehem yn yr haul.

► CYDYMDEIMLWN hefyd â holl deulu Mrs Lisa Carey, un arall eto o aelodau Capel y Crwys a fu farw'n gynnar yn y flwyddyn. Fe'i cipiwyd oddi arnom ym mlodau ei dyddiau.

Fe ddaeth yn agos at 500 o bobl i'w hangladd i dalu teyrnged i'r wraig ifanc hon, priod, mam, merch a chwaer. Ei geiriau olaf wrth aelodau ei chapel oedd, "Felly, cofiwch, ymdrechwch i fod yn hapus bob amser." Geiriau ddylai olygu llawer i bob un o ddarllenwyr *Y Dinesydd*.

► CAFODD aelodau Capel y Tabernacl golled fawr ym marwolaeth Ann Meurig Jones. Roedd hi'n un o ferched y capel a'i thad, Mr Albert Davies, yn gyn-ysgrifennydd. Cyfrannodd Ann yn frwdfrydig at bob agwedd ar fywyd y capel, gan gynnig gweledigaeth ymarferol a gwasanaeth gostyngedig ar bob achlysur. Wynebodd ei holl bryderon mewn ffordd siriol a dirwgnach ac roedd dydd ei hangladd yn achlysur o ddathlu bywyd llawn a gwerthfawr. Estynnwn ein cydymdeimlad â Heather a Nicholas.

► CYDYMDEIMLWN â'r Dr Richard Elfyn Jones, Yr Eglwys Newydd a hefyd â'i frawd a'i chwaer, Dillwyn ac Elan, ar farw eu mam yn Hen Golwyn. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Gwyneth David ar farw'i gŵr, Glyndwr; ac â Mrs Delyth Dunsford, ar farw'i thad.

# Twmpath dawns

CYNHALIODD Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Bro Eirwg Dwmpath Dawns yn yr ysgol ar ddechrau Mawrth i ddathlu Gŵyl Dewi ac i godi arian tuag at yr ysgol. Er gwaethaf y tywydd caled daeth nifer sylweddol ynghyd a chafwyd noson ddifyr.

# Y diweddaraf o'r ystafell newyddion

**Fe fu disgyblion Blwyddyn 4 Ysgol y Wern yn ymweld â swyddfa bapur newydd yn ddiweddar. Dyma'r hanes.**

AR Chwefror 1af fe aethon ni i Thomson House i weld sut mae papur newydd yn cael ei gynhyrchu.

Fe ddysgon ni fod pedwar gwahanol bapur newydd yn cael eu gwneud yno. Eu henwau yw The Echo, Western Mail, Cardiff Post, Wales on Sunday.

Ar ôl cael cyflwyniad byr fe aethon ni i'r llyfrgell. Roedd hi'n brysur iawn yno. Ar ôl bod yn y llyfrgell, fe ymwelon ni ag ystafell newyddion yr Echo. Roedd hi'n brysur yno gyda llawer o newyddiadurwyr yn gweithio ar eu cyfrifiaduron.

Wrth adael yr ystafell newyddion fe welon ni'r peiriant sy'n argraffu, torri, plygu a lapio'r papur. Roedd y peiriant wedi costio £10m o bunnoedd a'r papur yn symud ar gyflymder o 45 milltir yr awr.

Roedden ni wedi synnu gyda'r holl waith yr oedd ei angen i wneud un papur newydd. Fe ddysgon ni fod y broses o wneud papur newydd yn un gymhleth iawn.

Uchafbwynt y dydd oedd darllen ein copi o'r Echo ac yfed y ddiod a roddwyd i ni. Dyma'n henwau ichi gael gweld pwy fu yno:

**Bethan Jennings, Branwen Davies, Lowri Wyn-Morgan, Dafydd Franklin, Owen John.**

## Uchafbwyntiau Eisteddfod Gwyl Dewi Ysgol Glan-Taf

## Ar goll

Ar goll, heb fy mam,
Mewn adeilad enfawr
Heb gliw o gwbl
Teimlad trist, ar fy mhen fy hun,
Gyda phobl yn syllu arnaf.
Ar goll fel morgrugyn mewn cae mawr
Rhywun yn dod ataf
A finnau yn crio.
Ond llais caredig yn fy nghysuro.

Llaw wrth law
Yn cerdded yn araf,
Diflannodd fy nagrau
Wrth flasu'r losin neis.
Eistedd yn eiddigeddus
Wrth weld plant eraill gyda'u mamau,
Unigrwydd yn fy nghalon.

Llais uchel ar y meicroffon,
'Mrs Griffith!'
Dyma hi'n dod.
O, dyna ryddhad, poen yn diflannu,
Cerdded allan o'r siop,
Dwylo wedi'u glynu,
Tuag adref

**Rhys Griffith**

## Yn y cof

Coridor cul
Yn ei ailadrodd ei hun
Drysfa o ddrysau, llond lle o liwiau
A phob synnwyr dan straen
O gyfarfod â'r byd newydd hwn.
Blasu ansicrwydd
A chuddio
Yng nghysgod Mam
A gamai'n hyderus
Gan siarad â phobl.
Ni allwn weld mo'u
hwynebau.

Cyrraedd pen y daith
ddiddiwedd
Mewn dosbarth,-
testun sylw
pob perchen pâr o lygaid.
Cael fy
meirniadu

Ansicrwydd yn
dod yn ôl
a chawr yn fy nghofleidio
Anghenfil dan drwch o golur
Yn rhwygo fy nwylo o ddiogelwch
Mam
a ddiflannodd o'r gwallgofdy
ar frys

Eistedd a chrio
Cael si-so glin Mrs Grey
cyn cynefino a mentro
i'r jyngl o deganau plastig
a mwynhau.

Y gloch yn canu.
Mam yn ailymddangos.
Diolch byth am derfyn dydd!

**Ian Stephen**

## Tywyllwch

Rydw i'n hoff o'r tywyllwch
tywyllwch yn y nos,
Gweld yr holl oleuadau
yn disgleirio mor dlos.

Mae'r tywyllwch yn garedig
Dyw'n dangos dim sy'n flêr,
Yn lle hynny mae'n dangos
Harddwch y lleuad a'r sêr.

Distawrwydd y tywyllwch
Llawn cysgodion trwm a du
Mae'n rhoi'r fath ofn i rywrai,
Ond nid yw'n fy nychryn i!

**Alys Bryant, 10 oed**
***Ysgol Melin Gruffydd***

## UN DON O FRWDFRYDEDD

CYNHALIWYD Eisteddfod Ysgol Glan-Taf eleni yng Nghanolfan Hamdden Gerddi Soffia ar y degfed o Fawrth. Roedd y cyfan yn llawn o liw a chynnwrf. Oherwydd bod digon o le yma roedd cyfle i'r ysgol uchaf a'r ysgol isaf ddod ynghyd mewn un don o frwdfrydedd. Bu cystadlu egnïol rhwng y llysoedd (Dewi, Dyfri, Illtud a Theilo). Ar derfyn y dydd eleni, y llys gwyrdd, sef Dyfri a enillodd.

Roedd safon y cystadlu'n uchel ac uchafbwynt y cyfan wrth gwrs oedd y seremoni gadeirio. Bardd y gadair eleni oedd Siôn Tudur. Mae'n fab i Rhys ac Elin Tudur Treganna ac mae'n ŵyr i'r Dr R. Tudur Jones.

Llongyfarchion cynnes iddo.

**This month's learners' feature looks at dates and ordinals**

# Dyddiadau pwysig

DYSGU CYMRAEG

**GYDAG ALUN A MAIR TREHARNE**

Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at fis Gorffennaf yn ein tŷ ni - at yr wythfed ar hugain o Orffennaf. Mae perthynas agos yn y teulu'n priodi ac mae pawb yn llawenhau.

Daeth newyddion am briodas deuluol arall hefyd, a gwahoddiad ffurfiol (formal): 'Mae'n bleser gan Mr a Mrs XX eich gwahodd i briodas eu merch XX a Mr XX yn Eglwys Rowton ar ddydd Sadwrn y cyntaf o Awst.'

Ar gerdyn post y daeth y gwahoddiad am y briodas nesaf. Dyma'r neges oedd ar y cerdyn: 'Rwy'n priodi!! Cadwch y nawfed o Fedi'n rhydd.'

Felly mae tair priodas yn ein dyddiadur eleni erbyn hyn. Rydyn ni'n trafod dyddiad rhywbeth neu'i gilydd (something or other) bron bob dydd ar hyn o bryd - partïon pen blwydd y plant (Ebrill a Mai) a gwyliau haf arbennig.

Ydych chi'n cael trafferth dweud dyddiad yn Gymraeg weithiau - wrth drefnu cyfarfod, efallai, neu archebu tocynnau ar gyfer drama dros y ffôn? Ydy "the 18th", "the 21st" neu "the 31st" ar flaen eich tafod (on the tip of your tongue) yn Gymraeg?

Efallai y bydd y rhestr hon yn help i chi:

| | | |
|---|---|---|
| 1st - y cyntaf | 12th - y deuddegfed | 23rd - y trydydd ar hugain |
| 2nd - yr ail | 13th - y trydydd ar ddeg | 24th - y pedwerydd ar hugain |
| 3rd - y trydydd | 14th - y pedwerydd ar ddeg | 25th - y pumed ar hugain |
| 4th - y pedwerydd | 15th - y pymthegfed | 26th - y chweched ar hugain |
| 5th - y pumed | 16th - yr unfed ar bymtheg | 27th - y seithfed ar hugain |
| 6th - y chweched | 17th - yr ail ar bymtheg | 28th - yr wythfed ar hugain |
| 7th - y seithfed | 18th - y deunawfed | 29th - y nawfed ar hugain |
| 8th - yr wythfed | 19th - y pedwerydd ar bymtheg | 30th - y degfed ar hugain |
| 9th - y nawfed | 20th - yr ugeinfed | 31st - yr unfed ar ddeg ar hugain |
| 10th - y degfed | 21st - yr unfed ar hugain | |
| 11th - yr unfed ar ddeg | 22nd - yr ail ar hugain | |

*9 May* = **y nawfed o Fai** *neu* **Mai y nawfed**

*28th October* = **yr wythfed ar hugain o Hydref** *neu* **Hydref yr wythfed ar hugain.**

Er enghraifft:

**Wyt ti'n rhydd ar yr unfed ar bymtheg?**
(Are you free on the 16th?)

**Beth am yr ugeinfed o Ragfyr?**
(What about the 20th of December?)

**Rhaid ichi dalu'r gweddill erbyn y degfed o'r mis nesa.**
(You must pay the balance by the tenth of next month)

**Mae gwyliau hanner tymor rhwng y trydydd ar ddeg a'r ail ar bymtheg.**
(Half term holiday is between the thirteenth and seventeenth.)

### *Ymarfer:*

Dyma wythnos arbennig ac wyth dyddiad. Mae'r dyddiadau yn y drefn anghywir. Cysylltwch (join) y diwrnod a'r dyddiad cywir ac ysgrifennwch y dyddiad yn llawn.

1. Dydd Calan 17 Mawrth
2. Gŵyl Santes Dwynwen (santes cariadon)/14 Chwefror
3. Gŵyl Sant Steffan (Boxing Day)/30 Tachwedd
4. Noson Guto Ffowc (Guy Fawkes Night)/1 Ionawr
5. Gŵyl Badrig (St Patrick's Day)/16 Ebrill
6. Gŵyl Andras (St Andrew's Day)/5 Tachwedd
7. Gŵyl San Ffolant (St Valentine's Day)/14 Chwefror
8. Sul y Pasg eleni/26 Rhagfyr

**D**

# Nosau o ddathlu

COFIO

Bu R G Berry, Gwaelod-y-garth farw ar 13 Ionawr 1945, hanner can mlynedd union yn ôl, a chafodd ei gladdu ym mynwent Pentyrch ar 17 Ionawr. Ar Ionawr 17 1995 ymgasglodd nifer fach ohonom o gwmpas ei fedd, darllen y Gair, offrymu gweddi a gosod torch o flodau dan arweiniad y Parchedig T J Davies.

I barhau'r cofio trefnwyd cyfarfod lle bu'r seiciatrydd Dr Dafydd Huws a'r awdur Dafydd Huws yn trafod gwaith R G Berry ac yna ddarlith gan yr Athro Hywel Teifi Edwards.

Yna, y dair noson ddilynol, perfformiwyd tair drama fer a gyfansoddwyd gan R G Berry, *Noson o Farrug*, gydag Esyllt Davies, Ffion Harries, Iolo a Bethan Clement, Rhys Ellis Owen a'r cyfarwyddwr Rhys Powys; *Yr Hen Anian*, gyda Wynford Ellis Owen, Catherine Edwards, Catrin Roberts, Rhodri Gwyn Jones a Rhys Davies a'r cyfarwyddwr Heddyr Gregory; a *Dwywaith yn Blentyn* gydag Ifan a Marged Roberts a Dafydd Huws ac Emyr Edwards yn cyfarwyddo. Gwelir oddi wrth enwau'r actorion a'r cyfarwyddwyr i ni gael noson o fwynhad pur a chyflwyniadau proffesiynol.


*Llun trwy garedigrwydd [illegible] Williams, golygydd Tafod Elái*

*Cyfeillion wrth fedd R G Berry*

Mae gan ambell un ohonom syniad y buasau R G Berry swil, encilgar, yn dweud, 'Diolch o galon i bawb'.

**Huw Ethall**

# Chwilio am weithlu Cymraeg




Mae cyfleoedd gyrfaol ar gyfer Cymry Cymraeg ar gynydd, does dim dwywaith am hynny, ac yn arbennig yn y Brifddinas.

I brofi hynny, dyma ichi Sandra Blight, rheolwraig swyddfa Caerdydd Kelly Services, un o asiantaethau ricriwtio mwyaf y byd.

"Mae'r galw am staff dwyeithog yn uwch o lawer na'r gweithlu presennol," meddai. "Rŷn ni wedi bod yma ers wyth blynedd, a gweld y galw yn cynyddu trwy gydol yr amser hwnnw. Erbyn hyn, os ych chi'n byw yn ardal Caerdydd, yn siarad Cymraeg, a gynnoch chi sgiliau ysgrifennydd neu deipio, does dim rhaid i chi fod mas o waith."

Mae Kelly newydd ei phenodi i weini anghenion gwaith y Swyddfa Gymreig.

"Mae'n debyg byddai'n well gan y Swyddfa Gymreig gael rhywun ym mhob adran sy'n medru'r Gymraeg - nid tasg hawdd o bell ffordd o gofio bod 'na gymaint o adrannau!

"Nid yn unig mae'r Swyddfa Gymreig eisiau siaradwyr Cymraeg, rŷn ni o hyd ac o hyd yn derbyn galwadau o sefydliadau Cymraeg eraill, yn ogystal â chwmnïau preifat, am staff. Gall y penodiad ar y dechrau fod yn un dros dro, ond mewn byr o dro gwelwn ni sawl un yn troi yn barhaol wrth i'r cwmni sylweddoli pa mor werthfawr mae ei medrusrwydd.

"Hyd yn hyn mae'r rhan fwyaf o'n ysgrifenyddion wedi dod o'r Gorllewin - pobl sy'n fodlon symud tŷ a mwy na thebyg codi eu safon byw. Ond byddai'n well gennym pe basen ni'n gallu dod o hyd iddyn nhw yn gyntaf yma yng Nghaerdydd."

Mae rhan yr asiantaethau ricriwtio wedi tyfu yn aruthrol yn y maes Cymraeg er i Kelly ymsefydlu yn y Brifddinas wyth blynedd yn ôl. Un o'r rhesymau dros hynny ydy taw, yn ogystal â helpu chwilio am staff, nhw sy'n gofalu am dâl, trethi, Yswiriant Cenedlaethol, tâl gwyliau, ac ati.

Dechreuodd Cynorthwywraig Gangen newydd yn swyddfa Kelly yn Stryd y Castell yn ddiweddar. Mewn sawl ffordd, nodweddiadol o'r fath o berson mae'r asiantaethau yn chwilio amdano ydy hi. Cymraeg ei hiaith, mae Joan Davies wedi dychwelyd i'r gwaith ar ôl cael teulu. Erbyn hyn, mae'n helpu pobl eraill i wneud yr un fath.

"Ond nid yn unig ar gyfer merched mae'r cyfleoedd, cofiwch," meddai Miss Blight. "Yn aml, mae ysgrifenyddion gwryw yn gwneud gwaith o safon uchel iawn. Ond mae'r dynion yn fwy prin na'r merched!" **D**



**DYFODOL GWELL GYDA KELLY**

Mae gennym ar hyn o bryd amrhyw o swyddfeydd diddorol dros dro i:-

**YSGRIFENNYDDION**

Cynorthwywŷr personol

Gweithredydd Prosesydd Geiriau

Ysgrifennyddion llawfŷr

**STAFF I'R SWYDDFA**

Teleffonyddion,

Staff i'r man derbyn

Negeswyr

**PEIDIWCH OEDI FFONIWCH KELLY**

**CONTACT** Lynne Sheehy or Clare Barter 3 StrydCastell, Caerdydd.

Ffon. **01222 222588.**

Ffacs. **01222 664243**

KELLY SERVICES

RECRUITMENT CONSULTANTS AN EQUAL OPPORTUNITIES EMPLOYER


DAU GOG YN Y DDINAS

# Golwg Gogleddol

**Mae Beca Brown yn hanu o'r Waun-fawr yn Arfon, a Richard Williams yn dod o Fethel. Mae'r ddau newydd ddechrau gweithio yn y ddinas. Dyma sut maen nhw'n ein gweld ni.**

## Beca Brown

PAN o'n i'n byw yn Waun-fawr ac yn ddisgybl yn Ysgol Caernarfon, yr unig beth oedd yn fy nghadw i fynd drwy fisoedd hunllefus arholiadau Lefel A oedd y ffaith y byddai graddau da yn fy ngalluogi i ddod i'r coleg yng Nghaerdydd. I mi, roedd llwyddiant yn yr arholiadau yn golygu tocyn allan o bentref gwledig a phasbort i'r 'ddinas fawr ddrwg'. Roedd bywyd coleg yn denu wrth gwrs ond roedd bywyd dinesig yn atyniad llawer cryfach.



Anghofia i byth y noson y cerddais i mewn i Glwb Ifor Bach am y tro cyntaf. Yn fyfyrwraig flwyddyn gyntaf, roedd gen i ddelwedd yn fy mhen o'r clwb anhygoel yma, lle roedd pawb sydd yn unrhyw un yn mynd. Mi gerddais i mewn yn ddiniwed i gyd am ryw 9 o'r gloch y nos, yn disgwyl i'r lle fod dan ei sang a'r cwbwl a welais i oedd ystafell hir, dywyll, carped drewllyd, a hen ddyn gyda locsyn yn sefyll wrth y bar - doedd dim pobl brydferth i'w gweld yn unman, a'r un enwogyn ar gyfyl y lle (serch bod y creadur wrth y bar yn ymdebygu i Bob allan o Twin Peaks). Y fath siom.

Dair blynedd yn ddiweddarach, mae'n braf gallu dweud bod Clwb Ifor Bach bellach wedi cael gwared ar yr hen garped yna (dw i'n meddwl ei fod ar lawr fy fflat i, a dweud y gwir), ma 'na ddigon o bobl 'hip and trendy' yn mynd yno, ac mae'r hen ddyn wrth y bar yn dipyn o gês. Dydi pobl ddim yn hoffi cyfaddef eu bod nhw'n mynd i Glwb Ifor yn rheolaidd, a'r bobl sydd uchaf eu cloch yn lladd ar y lle ydi'r bobl sydd yno amlaf - ond dyna ydi apêl y clwb, 'it's the place we love to hate'. Ond rhan fach iawn o fywyd cymdeithasol Caerdydd ydi Clwb Ifor wrth gwrs, ac mae'n rhaid dianc weithiau, yn enwedig ar benwythnos rygbi!

Bellach dw i wedi gadael y coleg ond dw i'n dal i fod yma yng

☛ *parhad ar dud 10*

surrexit

Mae Surrexit Creadigol yn asiantaeth hybysebu a marchnata yng Nghaerdydd. Rydym yn chwilio am y staff calynol i ymuno â'n tîm sy'n gwasanaethu rhai o brif sefydliadau Cymru a thu hwnt.

**Dylunydd Cynorthwyol**
Byddwch yn berson sydd â meddwl clir a chreadigol sy'n gallu troi eich llaw at greu a dehongli cysyniadau ynghyd â pharatoi arlunwaith lân a chywir o'r safon flaenaf dan gyfarwyddyd ac ar eich pen eich hun. Byddwch yn gyfarwydd â Quark XPress, Photoshop 3.0 a FreeHand 3.1 ac yn gallu dangos doniau darluniadol ar bapur ac ar sgrîn. Byddai ddiddordeb neu brofiad o waith graffeg ar gyfer y teledu o fantais, ond heb fod yn angenrheidiol.

**Clerc Cyfrifon (rhan amser)**
Byddwch yn gweithio oriau hyblyg yn ein hadran gyllid brysur. Rydym yn gweithredu'n systemau cyfrifon ar gyfrifiaduron, felly byddai profiad o ddefnyddio meddalwedd cyfrifon o fantais, a phrofiad PAYE, gwerthiant, pwrcasu, a chadw llyfrau cyfrifon yn angenrheidiol. Byddwch hefyd yn gyfrifol am gynnal systemau archebu, anfonebu a thalu y cwmni.

Mae Surrexit Creadigol yn gweithredu'n ddyddiol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, felly i'r naill swydd a'r llall byddai cywirdeb yn y ddwy iaith o fantais fawr.

Cyflog i'w drafod, yn seiliedig ar brofiad a chymwysterau.

Am fwy o wybodaeth a ffurflen gais, cysylltwch â:
**Linda M Leach**
**Partner Gweithredol**
**Surrexit Creadigol**
**Parc Afon**
**Bridge Road**
**Ystum Taf**
**Caerdydd CF4 2JL**
**01 222 578772**

PERTEMPS
*recruitment partnership*

*Siaradwyr Cymraeg...*
*Mae arnon ni eich angen chi!*

Mae gan Pertemps Network gyfleoedd dros dro (tymor byr a hir) ar gyfer ysgrifenyddesau Cymraeg â phrofiad prosesu geiriau, a staff eraill.

Cysylltwch â ni yn awr!

PERTEMPS RECRUITMENT PARTNERSHIP LTD
22 High Street, Caerdydd CF1 2BZ
Ffôn: 01222 220776 Ffacs: 01222 239345

☛ *parhad o dud 9*

Nghaerdydd. Mae'r hen ystrydeb yn wir - mae Caerdydd yn ddigon mawr heb fod yn rhy fawr, ac am bob golygfa o hagrwch dinesig mae 'na barc prydferth neu adeilad hardd. Mae Cymreictod wedi symud o'r capel ac wedi mentro i fydoedd newydd. Mae Cymry Cymraeg yn gallu mwynhau eu hunain drwy gyfrwng yr iaith heb gael eu gorfodi i ddawnsio i Pererin neu Hergest. Bellach mae cerddorion ifanc Cymraeg yn cymryd eu hunain o ddifri ac mae'r tabŵ o berfformio'n ddwyieithog wedi'i gladdu. Mae yna bobol ifanc sydd yn benderfynol o achub teledu Cymraeg o gors y di-ddim, di-dda ac mae yna lond dwrn o Gymry ifanc yn sicrhau bod Big Issue Cymru yn llwyddiant. Hwrê, ddweda i!

## Richard Williams

MAE'N nos Sul, hanner awr wedi saith a dwi eisiau mynd allan. Dwi ym Mhrifddinas Cymru - Caerdydd, y lle i fod.

Ond i ble yr af i? Fel rhywun cymharol newydd i'r De dwi wedi synnu cyn lleied o lefydd sydd yn agored yng nghanol y ddinas ar nos Sul. A thros y Dolig a'r Flwyddyn Newydd yr oedd hi'n union yr un fath, fel mynwent.

A hithau'n adeg brysuraf y flwyddyn roedd gan bobol arian i'w wario ond nunlle i fynd. Roedd drysau pobman yng nghau.

Ond mae hi'r un fath bob nos Sul. Am ryw reswm mae dros hanner miliwn o bobol yn diflannu - i ble? i'r capel, i'w hystafelloedd neu a oes yna ryw ganolfan anferth yma nad oes neb wedi dweud wrtha i amdani? Fel prifddinas dylai Caerdydd fod yn ganolbwynt celfyddyd y genedl, yn atyniad i grwpiau pop mawr a'r clybiau ar eu prysuraf - bob nos, saith diwrnod yr wythnos.

Dydi Llundain, Manceinion a Lerpwl ddim yn cau i lawr ar nos Sul ac mae rhai llefydd fel Newcastle yn brysurach ar y Sul nag ar nos Sadwrn. Ond dim Caerdydd. Prin fod tafarn yng nghanol y ddinas sydd yn agored ac o ddarganfod un mae'n rhaid ichi fod yn barod i dderbyn eich cwmni eich hun.

Un Sul mi ges i sioc o ddarganfod tafarn oedd yn weddol brysur. Cymerodd bum munud i mi sylweddoli mai lle cyfarfod i hoywon oedd o.

Wrth gerdded i ffwrdd yn o sydyn 'welais i neb ond heidiau o blant ar eu ffordd i wylio'r Lion King neu ffilm ddiweddaraf Arnie. Dim jest mater o arian ydi o - dydi Newcastle na Lerpwl ddim yn lleoedd cyfoethog, o bell ffordd, ond mae angen rhywbeth i anadlu bywyd ffres i ganol Caerdydd.

Ac i fod yn onest dydi pethau ddim llawer gwell yn yr wythnos. Fel gogleddwr mewn lle gweddol ddiarth mae Clwb Ifor Bach yn hafan. Ond ar ôl galw yno un nos Fercher mi ges fy nghroesawu gan ryw rocar yn deud, "There's a heavy metal night on tonight."

Dim diolch - ella mai sticio at nos Sadwrn wna i rŵan. **D**


BWRDD YR IAITH GYMRAEG

**DAU GROESAWYDD**

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn chwilio am ddau berson i weithio fel croesawydd yn ei swyddfa yn Heol Eglwys Fair yng nghanol Caerdydd. Golyga hyn weithio 22½ awr yr wythnos naill ai bob bore neu bob prynhawn o ddydd Llun tan ddydd Gwener.

Dylai'r ymgeiswyr feddu ar brofiad o waith trefnu, sgiliau cyfathrebu da ac ar y gallu i weithio'n rhwydd gyda phobl ar bob lefel. Byddai profiad o weithio ar brosesydd geiriau yn fantais.

Bydd y cyflog cychwynol ar gyfer y ddwy swydd uchod yn £6,928 (pro rata). Cynigir contract 6 mis i ddechrau, i'w adolygu ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

Nid oes ffurflen gais bwrpasol, ond dylai pob cais gynnwys manylion llawn am yrfa'r ymgeisydd ynghyd â disgrifiadau cynhwysfawr o'r hyn y gallai ei gynnig i'r Bwrdd pe'i penodwyd i'r swydd. Bydd disgwyl i'r sawl a benodir i'r swyddi uchod fod ar gael i ddechrau ar eu gwaith cyn gynted â phosibl. Gellir cael disgrifiad swydd â manylion pellach oddi wrth y Swyddog Personél ar (01222) 224744 est 2112.

Dylech anfon ceisiadau, gan gynnwys enw dau ganolwr at:

*Mrs Nona James*
*Swyddog Personél*
*Bwrdd yr Iaith Gymraeg*
*Siambrau'r Farchnad*
*5-7 Heol Eglwys Fair*
*CAERDYDD*
*CF1 2AT*

erbyn 21 Ebrill 1995

BWRDD YR IAITH GYMRAEG

WELSH LANGUAGE BOARD



**GWYLIAU PASG**

NEWIDIADAU SBWRIEL/AILGYLCHU

**YNG NGHAERDYDD**

ENVIRONMENTAL SERVICES



**Gofynnir i chi gymeryd sylw arbennig o'r newidiadau sydd yn nhrefn y dyddiadau casglu sbwriel (a'r sachau ailgylchu os yn briodol) dros y pasg**

**NEWIDIADAU CASGLU**

| Eich Casgliad Arferol | | | Trefniadau Casglu Dros Dro fel arfer | |
|---|---|---|---|---|
| Dydd Gwener | 14eg o Ebrill | Casglir | | |
| Dydd Llun | 17eg o Ebrill | yn newid i | Ddydd Mercher | 19eg o Ebrill |
| Dydd Mawrth | 18fed o Ebrill | yn newid i | Ddydd Iau | 20fed o Ebrill |
| Dydd Mercher | 19eg o Ebrill | yn newid i | Ddydd Gwener | 21ain o Ebrill |
| Dydd Iau | 20fed o Ebrill | yn newid i | Ddydd Sadwrn | 22ain o Ebrill |
| Dydd Gwener | 21ain o Ebrill | i'w gasglu ar | Ddydd Sul | 23ain o Ebrill |

Gofynnir i chwi roi eich sbwriel tu allan i'r tŷ naill ai'r noson cyn eich dyddiad casglu newydd neu cyn 7.00am fore'r casgliad ei hun.

Gofynnir i fasnachwyr sydd â chytundeb gyda'r Cyngor gadw'r sbwriel o fewn yr adeiladau hyd y casgliad nesaf.

Dylai'r rhai hynny sydd yn derbyn gwasanaeth clinigol nodi bydd y trefniadau uchod yn berthnasol hefyd.

Bydd holl storfeydd glanhau y Cyngor ar agor fel arfer dros y gwyliau.

*FFONIWCH ☎ CAERDYDD 822110*
*GYDAG UNRHYW YMHOLIADAU GLANHAU*




GYDA
**TOM DAVIES**

# 1999 amdani!

Ona allwn weiddi mewn llawenydd wrth glywed mai ar Y Maes Cenedlaethol y byddai Rownd Derfynol Cwpan y Byd yn hydref 1999! Ond ysywaeth, amhosibl yw ymlawenhau ar hyn o bryd, a minnau'n ysgrifennu bum niwrnod cyn yr ornest ar y Maes hwnnw yn erbyn Iwerddon - gornest a benderfynodd pa un o'r ddwy wlad a gafodd y lletwad pren. Ie, dyna'r cyfan oedd ar ôl ar ddiwedd tymor y Pum Gwlad eleni, a ninnau'n Bencampwyr flwyddyn ynghynt. Un cais a sgoriasid gan y Cymry yn y tair gornest cyn i'r Gwyddyl ddod yma, a llwm dros ben fuasai hi yn y tair gornest cyn y Bencampwriaeth, hefyd. Un cais yn Bwcwresti, un gartref yn erbyn Yr Eidal yng ngornestau Cwpan y Byd, a dim un gartref yn erbyn De Affrica. Sut y gellid disgwyl i ddyn neidio a gweiddi wrth glywed y newyddion am 1999 a'r tywyllwch dudew o'n hamgylch? Hwn fu tymor gwaethaf y wlad erioed am wn i, nid yn unig oherwydd inni golli pedair gornest yn olynol gan sgorio'r un cais hwnnw ar Gae Murray, ond am inni chwarae'n gwbl ddiweledigaeth a didacteg. Pan oeddwn i'n gwylio'r ornest yn Nhoronto'r haf diwethaf, credwn fod y dyfodol yn bur addawol, ond yr oedd hi'n amlwg ddigon ar ôl chwarae'r Eidal yn yr hydref mai yn ein holau yr aem.

Ychydig o newid a welwyd ar y timau er bod safon y chwarae cyn ised - bu anafiadau lu, rhaid dweud - ond ni fu mwy na thri symudiad ym Mhencampwriaeth y Pum gwlad a'n gwefreiddiodd. Ni allwn dderbyn nad oedd y chwaraewyr gennym, er bod rhai ohonom yn mynnu mai dyna oedd yn bennaf gyfrifol am y chwarae dilewyrch. Ni fu'r dewis yn ddoeth bob amser, ac nid oedd rhai o'n chwaraewyr mwyaf dawnus yn y brif garfan, hyd yn oed, ond dylasai'r rheiny a ddewiswyd fod wedi dangos llawer mwy o allu, a mwy o weledigaeth. Anodd deall sut na welwyd ôl yr holl hyfforddi a fu yn ystod y misoedd diwethaf, ac nid yw record sy'n dangos inni ildio deg cais a sgorio un yn unig yn dweud fawr am yr amddiffyn.

At 1999. Cenir yr Anthem Genedlaethol o flaen gornest y Rownd Olaf ag arddeliad yn ddïau (oni bai i'n clybiau werthu eu tocynnau i gyfoethogion Lloegr a'r gwledydd eraill) ond y drydedd anthem fydd hi y prynhawn hwnnw, hynny yw, fe'i cenir am mai anthem y wlad fydd yn cynnal yr ornest fydd hi, a dwy anthem arall a glywir i groesawu'r gwledydd i'r maes.

Mae amser i weddnewid y sefyllfa'n llwyr yn sicr, ond ar ôl pum mlynedd cyntaf y degawd hwn prin y gallwn ddisgwyl unrhyw wefr bellach. Aethom yn fusgrell. **D**

MAE'N BLESER GENNYM NI FOD YN GYSYLLTIEDIG Â'R "DINESYDD"


**Banc Barclays CCC**
**Barclays Cymru/Wales**
**Pencadlys**
**Bocs PO 323, 4ydd Llawr**
**Llys Winsor**
**3 Plas Winsor**
**CAERDYDD CF1 3BT**
**(01222) 222633**

*+ + + MAE'N WERTH I CHI SIARAD Â*

**BARCLAYS**

# CROESAIR AP LEWSYN

**Rhif 143 Ebrill 1995**



**AR DRAWS**

1. Merch dy feddwl uchaf yn gwneud ymgais lew (6)
4. Mesur hyd ei gorff, ond heb gwymop (6)
9. Safle Gŵyl y Pebyll? (4,2,9)
10. Mwy golygus (6)
11. Perthyn Dei i frid oneirif (8)
12. A yw cynulleidfa a gollodd ei gweinidog mewn cyflwr felly?
14. Gwneud defnydd o siwgr i lanhau? (6)
15. Digon o fodd y tu ôl. (6)
18. Nid tollau sy'n peri iddynt ymadael â'u gwlad. (8)
21. Yn peri crawcian wrth lefaru (8)
22. Pennill y llinell goll (6)
24. Ffrind y snwcer yn y cyffro yn dangos tipyn o sens. (7)
25. Rhoi gwybod pan dyrr y wawr. (6)
26. Anferth o afr wen (6)

**I LAWR**


1. Byddem yn gafaelyd. (15)
2. Rhif y disgyblion, y misoedd a'r oriau. (5)
3. Boed ichwi syllu i mewn i chwe drych. (7)
5. Cael cibau ar ôl menter - go feiddgar, onide? (7)
6. Gorfu iddo ymgyfarwyddo â bwyd amgenach. (9)
7. Pebyll y cyfarfod? (7)
8. Plentyn y pili-pala. (6)
13. Ansoddair pan fydd diffyg yn y cyflenwad. (9)
16. Nofwyr lliwgar sy'n harddu'r pwll. (7)
17. O fyfyriw uwch y gân, y bu i mi lesgu. (7)
18. Petrus. (6)
19. Graham Bell a'i dyfeisiodd. (7)
20. "--- geni drachefn" (Ioan 111, Yr Hen Gyfieithiad). (7)
23. Y mae'n colli ei wallt. (5)

*Datrysiad at Ap Lewsyn, 13 Rannock Drive, Caerdydd.*

### CYSTADLEUAETH RHIF 141:

Tair ymgais ar ddeg. Deg yn gywir. Yr enw a dynnwyd ar hap oedd eiddo Tecwyn Vaughan Jones, 8 Pembroke Court, Curlew Close, Yr Eglwys Newydd, ac mae'r tocyn llyfr eisoes wedi ei gyrraedd, mi obeithiaf. Y naw arall cywir yw: Alun Rowlands, Llandaf, Carys Humphreys, Bangor, David Bullock, Y Rhath, Dilys Gunstone, Cyncoed, Gwenda Hopkins, Llanisien, Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd, Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd, Margaret Jones, Cyncoed a Marged Davies, Llandaf.

### DATRYSIAD 141



### CYSTADLEUAETH RHIF 142:

Bydd y datrysiad yn ymddangos yn y rhifyn nesaf.

# Cwm Glo




ROEDD yn hyfryd gweld Arena'r Sherman yn llawn dop a nifer yn ciwio am unrhyw dicedi a allai ddod yn ôl pan aeth *Y Dinesydd* i weld drama Kitchener Davies, Cwm Glo, nos Fercher 15 Mawrth.

Drama'i chyfnod ydy hon. Ynddi ceir y felodrama oedd mor nodweddiadol o rai o ddramâu'r cyfnod hwnnw wrth i deulu o lowyr tlawd ymdrechu i ymgodymu â phroblemau tlodi. Problem arbennig y teulu hwn yw bod y tad yn cael y sac am ei fod yn ddiogyn, a bod rheolwr y pwll glo â'i lygaid (a'i ddwylo) ar ei ferch ysgol sydd dan oed. Pan ddaw'r glowr, sy'n cam-drin ei wraig, i wybod hyn, caiff gyfle am flacmel a digon o arian yn sgil hynny ar gyfer ei ddiota; hyn er gwaethaf ymdrechion dyngarol chwaer rheolwr y gwaith ac un hen lowr i wella byd y teulu.

Mae'n hawdd gweld sut y bu i driniaeth o'r fath gythruddo pobl ei chyfnod, ond gyda'r ddrama wedi'i golygu gan Manon Rhys, merch yr awdur, llwyddodd yr actorion yn dda i ymgodymu â'r elfennau mwyaf melodramatig, er bod hynny'n dipyn o gamp yn niwedd yr act olaf. Roedd yn amlwg iddyn nhw ennill calon y gynulleidfa a theimlad pob un y bu'r *Dinesydd* yn siarad ag ef oedd ei bod yn ddrama gwerth ei gwneud.

Cafwyd perfformiadau graenus gan yr holl actorion ac roedd y set yn gynnil ac effeithiol. Noson bleserus, hanesyddol. **D**

## HYSBYS

**ANGEN** tri person i rannu tŷ yng nghanol Caerdydd gyda un arall. 4 ystafell wely, ystafell fyw, ystafell fwyta, ystafell ymolchi gyda cawod, cegin gyda peiriant golchi, peiriant sychu, peiriant golchi llestri, oergell, rhewgell, popty meicrodon. Ardal Blackweir, 5 munud o ganol y ddinas. £160.00 y mis & treth cymuned. Tel: 01222 590615 neu 341874.

**EISIAU:** Nanny rhan-amser (25-30 awr yr wythnos) i edrych ar ôl merch fach deunaw mis, yn ei chartref yn Nhreganna.. Rhif ffôn 399161.

**GWAITH** i'w deipio? Prosesu geiriau/clywdeipio. Cysylltwch â Gwen Lloyd Aubrey, B.A., Dip. RSA, ar (01222) 881546 (ar ôl 6.30 p.m.).

**GWERSI** piano. Llefydd ar gael i blant neu i oedolion. Ffoniwch 01222 844483.

**GWYLIAU** ar y Riviera (Nice): Fflat dwy ystafell ddwbl, lolfa, cegin, ystafell ymolchi. Dau funud i'r môr a'r holl gyfleusterau. 01446 773058.

**FFURFLEN ARCHEBU HYSBYSIAD YN "HYSBYS"**

*Enw* ..................................................

*Cyfeiriad* ..................................................

*Rhif ffôn* .............................. *Rhifyn mis* ..............................

*Geiriau:*

..................................................

..................................................

..................................................

..................................................

*Cost: 25c y gair, £5 minimum. Anfonwch siec os gwelwch yn dda, yn daladwy i "Newsline", gyda'r archeb at:* ***Newsline, 24 James Street, Bae Caerdydd CF1 6EX***